# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 08.06.22 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Keith Carroll (KC) (Cadeirydd), Huw Davies (HD), Jane Lawrence (JL), Ian Williams (IW) Nicola Tabberer (NT) Jenny Warne (JW), Geraint Edwards (GE), David Griffiths (DG), Debbie Taylor-Bond (DTB) (Clerk)

**Ymddiheuriadau:** Geraint Micah (GM), Francesca Pridding (FP), Louise Hughes (LH)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a mynegodd ei ddiolch am y gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod penwythnos y Jiwbilî i'r Parti yn y Parc a'r Ras Hwyaid ym mhentref Llwyngwril. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch hefyd i Francesca Pridding a Jenny Warne am gynnal archwiliad o'r Cae Chwarae, yn barod at benwythnos y Jiwbili.

2. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11.05.22 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Jenny Warne **Eilio –** David Griffiths **Arwyddwyd –** Keith Carroll.

3. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.05.22):**
   a) **Torri gwair Cof Golofn** – Cytundeb ar gyfer hyn bellach mewn lle a'r toriad cyntaf wedi ei gwblhau.
   b) **Ramp i'r Traeth ger Mynwent y Crynwyr** – i'w gadw dan adolygiad.
   c) **Codi Mainc Newydd Rhoslefain** – mae trefniadau ar gyfer hyn mewn llaw.
   d) **Cyflwr wal gynnal y ffin gyferbyn â Gwastadgoed -** mae Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r wal ac wedi ei anfon ymlaen i'w archwilio gan y peiriannydd strwythurol pan fydd yn yr ardal nesaf.
   e) **Darparu llinellau melyn dwbl (Cae Chwarae) -** disgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd or gwaith ar y gweill.
   f) **Chwistrellu Chwyn** – cadarnhaodd Cyngor Gwynedd fod y cytundeb ar gyfer chwistrellu chwyn i fod i gael ei ddyfarnu ac maent yn disgwyl i hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin.
   g) **Tudalen Cyfathrebu/Facebook - c**ynigiodd David Griffiths gynhyrchu tudalen Facebook ar gyfer y Cyngor Cymuned a rheoli hyn gyda chefnogaeth Jenny Warne. Byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i roi cyhoeddusrwydd i waith y Cyngor Cymuned.
   **Cynnig** - David Griffiths **Eilio** - Nicola Tabberer
   **I'w weithredu gan** - DG/JW
   h) **Archwiliad Flynyddol gyda Adran Priffyrdd Gwynedd** – KC a GE i wneud yr archwiliad gyda swyddog o Gyngor Gwynedd. Dyddiad i gael ei gadarnhau.
   **I'w weithredu gan -** KC/GE
   i) **Rhwystrau diogelwch wal derfyn ger Friog** - cysylltu â Network Rail i drefnu ymweliad. Y mater hwn i'w uwchgyfeirio i Gyngor Gwynedd a'r AS lleol.
   I'w weithredu gan - DTB.
   j) **Cynrychiolaeth gymunedol ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol** – mae Dr Fay Stockton wedi holi am gynrychiolydd cymunedol. Dylid cysylltu â'r ysgol i ofyn os all y cynrychiolydd fod yn rhiant?
   **I'w weithredu gan** – KC
   k) **Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2021** – **Cyfarfodydd aml-leoliad** - trafododd y Cyngor y ddarpariaeth o fynediad aml-leoliad i'r cyfarfodydd. Mae hyn i'w symud ymlaen a bydd adolygiad o'r rheolau sefydlog yn cael ei gynnal gan roi cyngor ar sut i gefnogi hyn. Gwybodaeth gan Gynghorau eraill i'w hystyried/Un Llais Cymru.
   **I'w weithredu gan** – DTB

l) **Canlyniadau Cynghorau Cymuned 2022/23** - Trafodwyd ambell wahanol ganlyniad. Tabl canlyniadau ar gyfer cynllun 2022/23 i'w diweddaru.
**I'w weithredu gan** - DTB

m) **Un Llais Cymru -** mae angen dau aelod i gynrychiolu'r Cyngor Cymuned ar bwyllgorau Un LLais Cymru. Cysylltu a FP a GM i weld os hoffent fod yn gynrychiolwyr.
**I'w weithredu gan** - DTB

n) **Archwiliad o Gyflwr Meinciau y Cyngor Cymuned -** cyflwynodd GE fanylion or archwiliad waned ar y feinciau'r Cyngor Cymuned. Is-bwyllgor i gael ei sefydlu i edrych ar hyn, a pharatoi rhaglen i'w cynnal a chadw.
Aelodau'r is-bwyllgor yma fydd = HD, GE a KC.
Angen ailosod y fainc ddur ger y traeth gan ddefnyddio'r fainc o Rhoslefain.
**Cynnig**: Geraint Edwards **Eilio:** Jane Lawrence

4. **Gohebiaeth:**

a) **Offer ffitrwydd newydd** – trefniadau wedi eu gwneud i osod yr offer newydd yn y cae chwarae ar 15/06/22. Hysbysiad i'w roi fynny wrth ochr yr offer i gynnwys manylion y wefan.

b) **Incwm praesept ar gyfer ail gartrefi** - Trafodwyd hyn ac mae ymholiad i'w wneud i weld cynnydd yn y setliad sy'n daladwy i'r Cyngor ar gyfer ail gartrefi.
I'w **weithredu** gan - DTB i holi

c) **Costau Etholiadau Cyngor** – Derbyniodd un o'r aelodau ymholiad yn gofyn "a yw'r Cyngor Cymuned yn rhoi arian o'r neilltu bob blwyddyn i dalu'r costau hyn"?
Cadarnhawyd na wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer yr etholiad yn y cyfrif blynyddol ond talwyd am gostau etholiad 2022 o gronfa presennol y Cyngor Cymuned.
Caiff costau etholiadau y dyfodol eu trafod yn flynyddol pan fydd y praesept yn cael ei osod.

5. **Materion Cynllunio:**

**NP5/69/LB54K -** Ymgynghoriad – Caniatâd Adeilad Rhestredig - Garthangharad, Llwyngwril. LL37 2U - (9/6/2022) i osod ffenestri sash gwydr dwbl newydd yn lle'r ffenestri sash sengl presennol ar flaenlun Gwesty Garthangharad.
**Dim gwrthwynebiadau.**

6. **Adroddiad Ariannol**:

Llofnodwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Adroddiad Blynyddol gan y Cadeirydd yn dilyn newidiadau a wnaed i daliadau "Adran 137" a chywiriad taliadau a wnaed yn y flwyddyn flaenorol ac a dynnwyd o'r cyfrifiadau.

**a)** Adolygiad Ariannol wedi'i gynnal.
**b)** Roedd Adroddiad Ariannol Mis Mai yn cynnwys adroddiad ar gyfer Cyfrif Nat West a Chyfrif HSBC.

**Cyfrif Banc HSBC – Balans Mewn Llaw – 01.04.2022 – 30.04.2022**

**Derbyniadau**
Grant Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer Mainc ………………………………………………………. £250.00

**Taliadau**
Taliadau Banc hyd at 30.03.2022 ……………………………………………………………………………. £7.00

**Cyfrif Banc Nat West - Balans Mewn Llaw ar 22.04.2022**

**Derbyniadau**

22.04.22 - Praesept Cyngor Gwynedd ………………………………………………………………. £ 5,135.00
16.05.22 - Trosglwyddo arian o Gyfrif Banc HSBC ……………………………………………. £11,300.00

**Taliadau**

17.05.22 - Siec 000005 - tyrchod daear yn y Cae Chwarae ………………….………….. £70.00
18.05.22 - Siec 000003 - Mainc Newydd ……………………………………………………. £522.00
18.05.22 – Siec 000008 - Yswiriant BHIB ……….………………………………………… £770.36
19.05.22 – Siec 000007 - Aelodaeth Un Llais Cymru ……………………….,…………. £141.00

**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Jenny Warne

7. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr**: **Dim**

8. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**: **Dim**

9. **Unrhyw Fater Arall:**
   - **a) Peiriant Diffibrilator Y Ganolfan –** peiriant wedi'i ailosod mewn bocs newydd.
   - **b) Pibell garthffosiaeth Afon Gwril –** twll o dan sylfeini'r bibell - cysylltu â Dŵr Cymru i roi gwybod iddynt.
     **I'w weithredu gan** - DTB
   - **c) Glaswellt wrth ymyl yr afon** – aelod o'r gymuned wedi holi ynglyn a torri'r gwair rhwng yr afon a'r llwybr cyhoeddus presennol, er mwyn ei ddefnyddio fel llwybr arall sy'n rhedeg wrth ymyl yr afon.
     **Nid yw hyn yn bosibl oherwydd y byddai'n lwybr "answyddogol "ac nid yw hyn yn dderbyniol.**
   - **d) Grŵp ar gyfer plant cyn oed ysgol** – Cais am gynnal grŵp i rieni â phlant ifanc.
     Cyfeiriwyd hyn at bwyllgor Y Ganolfan.
     **I'w weithredu gan** – JL
   - **e) Wal Gynnal y Bont Goch (Afon Gwril)** – angen cynnal a chadw'r waliau cynnal.
     **I'w weithredu gan** – DTB i gysylltu ag Adran Briffyrdd/Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.
   - **f) Cyngor Cymuned - Defnyddir yswiriant BHIB i gefnogi digwyddiadau lleol.**
   - **g) Arwydd ffordd gyferbyn â'r Cae Chwarae** – Uchder yr arwydd presennol ?
     **I'w weithredu gan** – KC a GE i'w drafod gyda Adran Priffyrdd , Cyngor Gwynedd.
   - **h) Recriwtio Clerc Newydd** – Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Clerc wedi cyflwyno ei hymddiswyddiad ac ei bod yn gweithio ei rhybudd. Trafodwyd amserlen ar gyfer recriwtio Clerc newydd. Cytunodd DTB i aros yn ei swydd tan ddiwedd Mis Gorffennaf i gefnogi'r penodiad a'r newid i'r clerc newydd.
     Diolchodd y Cadeirydd a'r holl Gynghorwyr i'r Clerc.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 27.07.22 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**